**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# Y CYNGOR

# THE COUNCIL

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1.00pm, DYDD IAU, 6 RHAGFYR 2012**

**1.00pm, THURSDAY, 6 DECEMBER 2012**

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**
**Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Gwyn Parry Williams**

**(01286) 679665**

**gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD/DISTRIBUTED 28/11/12)

**Harry Thomas**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

28 Tachwedd/November 2012

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 6 RHAGFYR 2012**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **6 RHAGFYR 2012 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 6 DECEMBER 2012**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **6 DECEMBER 2012 in SIAMBR DAFYDD ORWIG, COUNCIL OFFICES, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,

Prif Weithredwr/Chief Executive

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol/Independent – Ystafell Gwyrfai
Llais Gwynedd – Ystafell Llyfni
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Daron
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi fel rhai cywir gofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2012 (copi yma – papur ***gwyn***).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 12.

**8. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur **lelog**)

**9. TRETH CYNGOR – HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid (copi yma – papur **aur**)

**10. CYFLOGAU AELODAU**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella (copi yma – papur **glas**)

**11. FFORDD GWYNEDD**

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

**12. CANOLBWYNTIO AR BLANT A PHOBL IFANC GWYNEDD**

Cyflwyniad gan y Cynghorydd Sian Gwenllian – Aelod Cabinet Addysg a Phlant a Phobl Ifanc

**13. RHYBUDD O GYNNIG**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho dan Reol Gweithdrefn 17, bydd y Cynghorydd Stephen Churchman yn cynnig fel a ganlyn:-

**" Gan ystyried pwysigrwydd strategol ein rhwydwaith rheilffyrdd isranbarthol drwy ogledd Cymru, mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod nad oes digon o werth yn cael ei roddi i'r rhwydwaith hwn, ac nad yw'r ddau lywodraeth, yn San Steffan ac yn fwy diweddar yng Nghaerdydd, wedi rhoddi digon o gefnogaeth iddo.**

**Cyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2012 y byddai buddsoddiad sylweddol gwerth £350m yn cael ei wneud yn Ne Cymru, unwaith eto, mae Gogledd Cymru ar ei golled. Pe baem yn cael buddsoddiad o'r fath yn ein rhwydwaith ni, byddai gennym reilffordd fyddai'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Byddai hyn yn magu hyder yn ein hisadeiledd, a allai arwain at fuddsoddiadau masnachol drwy'r rhanbarth o ganlyniad.**

**I'r perwyl hwn, mae Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan i gydnabod pwysigrwydd hanfodol ein rhwydwaith isranbarthol, ac i fuddsoddi'n sylweddol yn unol â hynny.**

**Rhaid i Gyngor Gwynedd hefyd geisio cefnogaeth gan yr holl Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru, yr Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cynulliad Etholaethol a Rhanbarthol, a chydweithio â hwy i roddi'r hwb mwyaf posibl ar gyfer bwrw ymlaen â'r mesur hwn".**

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

# Y CYNGOR 04/10/12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Huw Edwards (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Stephen Churchman, Anwen Davies, Lesley Day, Eddie Dogan, David G. Edwards, Dyfed Edwards, Trevor Edwards, T.G. Ellis, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Jean Forsyth, Gweno Glyn, Gwen Griffith, Alwyn Gruffydd, Sian Gwenllian, Annwen Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Anne Ll. Jones, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Elin Walker Jones, Eric M. Jones, John W. Jones, Sion W. Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Christopher James O'Neal, Dewi Owen, Michael Sol Owen, W. Roy Owen, W.Tudor Owen, Peter Read, Caerwyn Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed W. Williams, Gethin G. Williams, Gruffydd Williams, Hefin Williams, John W. Williams, Owain Williams, Mandy Williams-Davies, Robert J. Wright, Eurig Wyn

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Aled Davies (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Janet Roberts (Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Busnes), Darren Griffiths (Rheolwr Cynllunio Strategol), Vera Jones (Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Emyr Edwards (Rheolwr Polisi Strategol Adnoddau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Elwyn Edwards. Simon Glyn, Chris Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Brian Jones, Linda W. Jones, Llywarch Bowen Jones, Nigel Pickavance, R.H. Wyn Williams

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2012 fel rhai cywir.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

(i) Tynnwyd sylw gan y Swyddog Monitro at yr eitem "Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd" bod angen i'r pedwar aelod sy'n cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd y Cwmni ddatgan buddiant ond bod hawl ganddynt i gymryd rhan yn y drafodaeth a'r pleidleisio ac y bydd angen i

unrhyw aelod sy'n denant i'r cwmni ddatgan buddiant hefyd a dod i gasgliad a yw'n gallu cymryd rhan yn y drafodaeth a'i weld yn ddiduedd.

Mewn perthynas â'r eitemau "Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2012/13" a "Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12", nododd y swyddog bod angen i aelod ddatgan buddiant ar unrhyw fater penodol cysylltiedig os bydd trafodaeth arno.

ii) Datganodd y Cynghorwyr Anne Ll. Jones, Michael Sol Owen a John W. Williams fuddiant personol yn yr eitem "Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd" oherwydd eu bod yn cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd y Cwmni.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerasant ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

iii) Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fuddiant personol yn yr eitem "Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd" oherwydd ei fod yn denant i'r cwmni.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

iv) Datganodd y Cynghorydd Angela Russell fuddiant personol yn yr eitem "Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd" oherwydd bod ei merch yn aelod o Fwrdd y Cwmni.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

v) Datganodd y Cynghorydd Sion W. Jones fuddiant personol yn yr eitem "Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd" oherwydd ei fod yn denant i'r cwmni.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

vi) Datganodd y Cynghorydd Gwen Griffith fuddiant personol yn yr eitem "Adroddiad Blynyddol Cartrefi Cymunedol Gwynedd" oherwydd ei bod yn Gadeirydd Mantell Gwynedd sy'n gyfrifol am weithredu grantiau penodol y cwmni.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

vii) Datganodd y Cynghorydd Sian Gwenllian fuddiant personol yn yr eitem "Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12" ac yn benodol y dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud ag addysg ôl-16 yn Nwyfor o'i gymharu ag Arfon, oherwydd bod ganddi blentyn mewn chweched dosbarth yn Arfon.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

viii) Datganodd y Cynghorydd Liz Saville Roberts fuddiant personol yn yr eitem "Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12" ac yn benodol y cwestiwn a godwyd am drefniadau cludiant ôl-16 gan ei bod yn gweithio i ddarparwr addysg ôl-16, Grŵp Llandrillo Menai.

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

i) Diolchodd y Cadeirydd am y gefnogaeth a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod ei anhwylder diweddar. Diolchodd hefyd ar ei ran ef a'r Is-gadeirydd i'r aelodau hynny a fynychodd cyfarfodydd yn eu lle.

ii) Dymuno'n dda i'r Cynghorydd Huw Edwards a fydd yn derbyn llawdriniaeth yn ystod yr wythnosau nesaf. 'Roedd yr aelod yn dymuno diolch i'r Cynghorydd Ioan Thomas am yr holl gymwynasau a wnaed ganddo yn ystod yr wythnosau diwethaf

iii) Cydymdeimlo â'r canlynol -

Y Cynghorwyr Simon Glyn a Gweno Glyn ar golli mam a nain yn ddiweddar.

Teulu Mr Tecwyn Ellis, Cyfarwyddwr Addysg cyntaf cyn-Gyngor Sir Gwynedd a fu farw'n ddiweddar.

Teulu Mr Tom Jones, cyn-Undeb T&GWU a fu farw'n ddiweddar.

Teulu Mrs Eileen Beasley a fu farw'n ddiweddar. Cofir am ei haberth hi a'i phriod Trefor yn ystod y 50au yn sefyll tros y Gymraeg.

Cyfeiriodd at lythyr a dderbyniodd gan y cyn-Gynghorydd Keith Greenly-Jones yn diolch am y geiriau o gysur a dderbyniodd yn dilyn marwolaeth ei briod yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

iv) Llongyfarch ieuenctid y sir yn dilyn eu llwyddiant yn yr arholiadau diweddar gan ddiolch i'w hathrawon. Llongyfarch hefyd y rhai o Wynedd ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg ym mis Awst.

Llongyfarch Ysgol Bro Plenydd, Y Ffôr a ddathlu canmlwyddiant yr ysgol yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

## 4. PENODIAD I'R PWYLLGOR SAFONAU

Hysbysodd y Cadeirydd y derbyniwyd pedwar cais am un sedd fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau ond ni fu'n bosibl i'r Panel Ymgynghorol gyfweld yr ymgeiswyr cyn y Cyngor oherwydd absenoldeb un ohonynt ar wyliau. Yn wyneb hynny, dylid gohirio'r mater tan gyfarfod nesaf y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2012.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno i ohirio'r mater tan gyfarfod nesaf y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2012.**

## 5. CEFNOGAETH I AELODAU

a) Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mai nod y Cyngor yw sicrhau "Y gorau i bobl Gwynedd heddiw ac yfory" ac mae gan bawb rôl arbennig i sicrhau hynny, yn arbennig aelodau etholedig y Cyngor. Mae sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i alluogi pawb i gyflawni ei rôl yn allweddol bwysig.

Nododd bod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyfrifoldeb, dan drefniadau Mesur Llywodraeth Leol 2011 i sicrhau cefnogaeth ddigonol ac addas i holl aelodau'r Cyngor i gyflawni eu rolau. Mae'r pwyllgor wedi adnabod meysydd lle mae angen newid a gwella a meysydd lle mae datblygiadau eisoes yn mynd rhagddynt. Penderfynodd y pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf y dylid adrodd i holl aelodau'r Cyngor yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael a'r gefnogaeth a ddatblygir yn gyfredol.

b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Mewn perthynas â'r disgwyl i dri aelod o'r Cabinet adrodd ym mhob cyfarfod o'r Cyngor, gofynnodd aelod a fyddai hyn yn sesiwn cwestiwn ac ateb.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol bod angen cytuno ar batrwm yr adroddiadau ac os bydd amser yn caniatau, bod aelodau'r Cabinet ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.

ii) Cyfeiriodd aelod at drafferthion gyda derbyn e-byst y Cyngor. Nododd i sawl aelod ddatgan dymuniad i barhau i dderbyn gwybodaeth yn electroneg gan y Cyngor drwy eu cyfeiriad e-byst personol yn hytrach na drwy system e-byst y Cyngor.

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu i'r mater gael sylw'r Grŵp Busnes yn ddiweddar pryd y cytunwyd i fynd rhagddo i ddarparu gwybodaeth yn electroneg i'r aelodau ac i asesu unrhyw drafferthion a geid.

Hysbysodd y Pennaeth Gofal Cwsmer os ceid trafferthion gyda derbyn e-byst y Cyngor, y dylid cysylltu â'r Ddesg Gymorth yn y lle cyntaf.

iii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y posibilrwydd o allu uwchraddio'r system e-bost presennol er cael gwell mynediad at ddogfennau sumpus a.y., hysbysodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Busnes y bwriedir hyfforddi swyddogion y Cyngor i becynnu dogfennau electroneg yn llai. O safbwynt yr is-adeiledd, mae gwaith cefndirol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a fyddai'n cynnwys cael linc i ddogfennau cyfarfodydd y Cyngor.

(iv) Cyfeiriodd aelod at achos lle 'roedd aelod o ward arall wedi ymyrryd â'i gwaith o fewn ei ward ac ni ddylai hyn ddigwydd eto.

(v) Datganodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd anfodlonrwydd mai ychydig o aelodau a fynychodd y sesiynau hyfforddiant yn ddiweddar oherwydd bod rhai heb dderbyn gwybodaeth yn electroneg amdanynt.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Aelodau – Gwasanaeth Democrataidd i'r aelodau dderbyh gwybodaeth am y sesiynau hyfforddiant yn electroneg a thrwy lythyr.

(vi) Pwysleisiodd aelod y pwysigrwydd bod aelodau lleol yn cael gwybodaeth gan swyddogion neu Aelodau'r Cabinet am waith a.y. sy'n mynd rhagddo yn eu wardiau.

(vii) Cyfeiriodd aelod arall at ffordd wedi ei chau yn ei ward am bedair wythnos ac nid oedd wedi cael gwybodaeth am hynny ymlaen llaw gan swyddogion y Cyngor.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr na ddylai achosion fel hyn ddigwydd ac y byddai'n codi'r mater yn y Grŵp Rheoli Penaethiaid Gwasanaeth yr wythnos nesaf.

(viii) Awgrymodd aelod y dylid ychwanegu at "Cefnogaeth i Aelodau Lleol i gyflawni eu rolau" gymal yn "hysbysu'r aelod lleol pan na fyddai gwaith penodol heb ei gyflawni".

(ix) Cyfeiriodd aelod at y ffaith nad yw'r Cyngor mwyach yn darparu papur pennawd nac amlenni ar eu cyfer.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol na fu newid yn y polisi a bod y Cyngor yn parhau i ddarparu papur pennawd ac amlenni ar gyfer yr aelodau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD 2012-2013

(a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Eglurodd bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i osod amcanion gwella'n flynyddol a rhoddi trefniadau effeithiol mewn lle er mwyn cyfarfod â'r amcanion hynny. Bodlonir y ddyletswydd hon yng Ngwynedd drwy gyhoeddi cynllun strategol sy'n crynhoi'r amcanion gwella mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy ac sy'n disgrifio'r prosiectau a'r buddiannau fesul prosiect y bwriedir eu gwireddu yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau gwelliant mewn meysydd penodol.

Manylwyd ar y gwaith o baratoi'r cynllun strategol. Nodwyd, yn dilyn cyflwyno'r cynllun drafft i aelodau'r Cyngor mewn gweithdy yng Ngorffennaf 2012, gwnaed rhai newidiadau i gynnwys y ddogfen cyn ymgynghori'n eang arno gyda'r cyhoedd a phartneriaid. Cyfeiriwyd at rhai enghreifftiau o'r sylwadau a ddylanwadwyd ar y cynnwys.

Mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Terfynol. fe'i gyflwynwyd i ystyriaeth y Cabinet ar 26 Medi 2012 pryd y'i cymeradwywyd.

Nodwyd y dechreuwyd ar y gwaith o lunio Cynllun Strategol newydd y Cyngor ar gyfer 2013-2017 a fydd yn gosod allan nod, amcanion gwella a blaenoriaethau newydd y Cyngor am gyfnod o bedair blynedd o Ebrill 2013. Un o'r prif sylwadau a godwyd yn ystod y gweithdy aelodau oedd yr angen i sicrhau bod yr holl aelodau'n derbyn cyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at ddatblygiad y Cynllun Strategol newydd.

(b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

(i) Cynigion yn y maes gofal ar gyfer 2012/13 – Cymal 6.3.3 – Cefnogaeth Integredig i'r Teulu

Tynnodd aelod sylw at y diffyg gofal ysbaid dementia i deuluoedd yn ardal Dwyfor.

Mewn ymateb, hysbysodd Arweinydd y Cyngor bod yna brosiect yn mynd rhagddo i adnabod yr angen am ganolfan o'r fath.

Hysbysodd Dafydd Lewis, y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn yr adolygiad strategol a wnaed o wasanaethau preswyl a nyrsio, 'roedd y gofyn am fwy o wasanaethau dementia yn cael ei adnabod. Nododd bod trafodaethau yn mynd rhagddo i ddenu pobl i fewn i gynnig mwy o wasanethau. Yn y cyfamser mae elfen o ofal ysbaid yn gallu digwydd trwy gartrefi preswyl y Cyngor.

(ii) Cynigion ym maes Adfywio a'r Economi ar gyfer 2012/13 – Cymal 7.3.1- Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel

Mewn perthynas ag Ynni Carbon Isel, 'roedd aelod o'r farn nad oedd y dehongliad y cyfeirir ato yn y cymal cyntaf dan y pennawd "Gweithgareddau'r Prosiect" yn gywir ac y dylid ei newid h.y. nid yw niwcliar yn ynni carbon isel.

Mewn ymateb, hysbysodd Arweinydd y Cyngor bod y pwynt y cyfeirir ato gan yr aelod yn y cynllun strategol sef y cymysgedd o ynni a manteisio ar adnoddau naturiol sydd gan Gwynedd ar hyn o bryd er mwyn creu ynni carbon isel ac hefyd cyfleon economaidd. Nododd bod y term y cyfeirir ato, sef ynni carbon isel, yn derm cydnabyddedig rhyngwladol gan wyddonwyr byd eang. Fe gydnabyddir yr hyn a gynhyrchir gan atomfeydd fel Wylfa yn ynni carbon isel.

Ymhellach, cynigiodd yr aelod welliant sef y dylid newid y cymal cyntaf y cyfeirir ato uchod i ddarllen "Mae'r Ynys Ynni a ragwelir yn gymysgedd o ynni adnewyddadwy ac ynni niwclear a rhaid i ni gymryd mantais o'r datblygiadau mewn ynni adnewyddadwy a sicrhau bod y rhan hon o Gymru yn cael budd o'r cyfleoedd cyflogaeth a greeir".

Syrthiodd y gwelliant.

(iii) Cynigiodd aelod welliant sef y dylid ychwanegu'r geiriad "Diogel a Chynaliadwy" at y pennawd "Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel"

Syrthiodd y gwelliant.

(iv) Cynigion ym maes Plant a Phobl Ifanc 2012/13

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod angen ychwanegu "Prosiect Trawsnewid Addysg Gynradd ac Uwchradd", tudalen 44 yn fersiwn Gymraeg y ddogfen.

Nododd yr aelod y derbyniwyd gwybodaeth heddiw gan Lywodraeth Cymru y byddai cyfran o'r arian ar gyfer rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn cael ei ryddhau'n gynnar ar gyfer deg o brosiectau yng Nghymru sy'n cynnwys y Ganolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig. Golygai hyn y gellir gwario'r arian y flwyddyn nesaf yn hytrach na'r flwyddyn ganlynol gyda'r canlyniad y gellir dechrau'r cynllun yn gynt.

(v) Tynnodd aelod sylw nad oes cyfeiriad yn y cynllun at yr angen am ysgolion newydd yn Y Groeslon a Criccieth.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Aelod Cabinet Addysg y cyflwynir adroddiad i'r Cabinet ar 9 Hydref 2012 ar "Cynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Darpariaeth Addysg" pryd yr argymhellir blaenoriaethu adolygiad o ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Y Groeslon, i gynnwys Carmel a Bronyfoel (Fron). Y nod yw sefydlu ysgol yn yr ardal cyn gynted â phosibl.

Nododd yr aelod lleol tros ardal Y Groeslon bod y cynllun i gael ysgol newydd yn Y Groeslon ar y gweill ers oddeutu 18 mis a'i fod yn croesawu y trafodir y mater gan y Cabinet yr wythnos nesaf.

Cadarnhaodd Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol yr ystyrir y ddarpariaeth yn ardal Y Groeslon yn flaenoriaeth fel a nodir yn yr adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet ar 9 Hydref 2012. Nododd y llwyddodd y Cyngor i gael £4.8m tuag at raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ac yn benodol ar gyfer ardal Y Groeslon. Y rhwystr mwyaf a gafwyd oedd nad oedd yn bosibl cael mynediad at yr arian tan ar ôl 2014 ac felly ni fyddai'n bosibl dechrau gwaith ar unrhyw gynllun tan ar ôl hynny. Fodd bynnag, derbyniwyd gwybodaeth heddiw bod Llywodraeth Cymru yn fodlon rhyddhau cyfran o'r swm o £38m tuag at y Ganolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig yn ystod 2013/14.

(vi) Cynigion yn y Maes Amgylchedd ac Is-adeiledd ar gyfer 2012/13 – Cymal 9.3.5 – Tai Fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu

Cyfeiriodd aelod bod rhai tai haf yn cael eu troi'n fusnesau a olygai nad yw'r Cyngor yn derbyn arian treth ganddynt. Gofynnodd a fyddai'n bosibl i'r Cyngor gymryd camau yn y cyfeiriad hwn.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Aelod Cabinet Tai bod Cyngor Gwynedd, wrth ymateb i ddogfen ymgynghorol, wedi gofyn i Lywodraeth Cymru roddi grym i awdurdodau lleol i reoli'r newid categori o eiddo yng nghyswllt trethi lleol.

Mewn ymateb i ymholiad pellach gan aelod, cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at sefyllfa lle gallai perchennog tŷ ei newid yn ail gartref, neu hyd yn oed yn dŷ gwyliau ar y rhestr trethi annomestig, drwy argyhoeddi'r Prisiwr Dosbarth am hynny. O ganlyniad, mae'r Cyngor fel casglwr y dreth yn colli trethi'r flwyddyn gyfredol ac hefyd yn dioddef colled ariannol pellach os yw'r Prisiwr yn penderfynu ôl-ddyddio'r newid o ddefnydd yr eiddo.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod Aelodau'r Cabinet a swyddogion y Cyngor yn cymryd pob cyfle i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu yn y maes, ac mai hynny oedd dan sylw yn y cymal olaf ar dudalen 54 o'r Cynllun Strategol.

(vii) Mewn perthynas â Rheoli Risg Llifogydd, cyfeiriodd aelod at y problemau gyda llifogydd ym Mhenrhos, Pwllheli ac y dylid cymryd camau unwaith yn rhagor i geisio atal hyn.

Cytunwyd i nodi'r sefyllfa.

(viii) Cynigion yn y Maes Iaith ar gyfer 2012/13.

'Roedd aelod o'r farn nad oes gweledigaeth yn y maes hwn. Rhagwelai pan gyhoeddir canlyniad y Cyfrifiad yn Ebrill 2013 na fydd yr un cymuned drwy Gymru gyda 70% o siaradwyr Cymraeg.

Mewn ymateb, hysbysodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn cytuno â sylwadau'r aelod. 'Roedd yn enghraifft o faes sydd angen i'r Cyngor wneud rhywbeth gwahanol. Nododd y patrwm mewn ysgolion i newid o'r Saesneg i'r Gymraeg. O safbwynt yr hir-dymor byddai modd rhoddi ystyriaeth dwys i'r mater yn y cynllun pedair blynedd nesaf.

(ix) Awgrymodd aelod y dylid cynnwys map o fewn y strategaeth. Cytunwyd â'r awgrym hwn.

Nododd yr aelod y dylid cryfhau'r cyfeiriad at y defnydd o dechnoleg gwybodaeth yn y cynllun. Cytunwyd y dylai'r Cyngor arddel technoleg gwybodaeth fel arf i foderneiddio a chyfathrebu'n fewnol ac allanol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2012/13 ac awdurdodi Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol er sicrhau cywirdeb.**

**7. PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2011/12**

(a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Eglurodd bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a bod yn atebol amdano. Nododd yn dilyn y Cyngor newydd mis Mai 2012, penderfynwyd y byddai'r Cynllun Strategol yn cymryd lle'r Cynllun Tair Blynedd. Mae'n ofynnol i awdurdodau gyhoeddi'r asesiad o'u perfformiad o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ganlynol. Yn unol â'r gofynion, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cynnwys yr adroddiad yn rhoddi darlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor.

Nododd y darperir manylion am berfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella a holl welliannau a dangosyddion blwyddyn gyntaf Cynllun Tair Blynedd 2011-2014. Rhoddir hefyd fanylion am berfformiad y Cyngor yn erbyn ymrwymiadau'r Cyngor mewn ffurf naratif drwy gynnig y cefndir i'r perfformiad. Ceir asesiad manwl fesul gwelliant, gan gynnwys esboniad o'r camau gweithredu lle bu llithriadau ar ddiwedd 2011/12. Er sicrhau bod y Cyngor yn atebol am ei berfformiad ac yn cyhoeddi asesiad cytbwys o'r cyrhaeddiad, penderfynwyd asesu'r cynnydd yn erbyn meini prawf penodol.

Nododd hefyd i'r adroddiad gael ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 2 Hydref 2012 a thynnwyd sylw'r aelodau at argymhellion y pwyllgor hwnnw.

(b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

(i) Datganodd aelod bryder bod angen craffu sawl adroddiad swmpus mewn cyfnod byr.

Mewn ymateb, hysbysodd Arweinydd y Cyngor y cafwyd trafodaeth mewn fforymau ar natur y pwyllgorau craffu ac efallai y bydd angen ail-ymweld â rhai elfennau.

(ii) Gwelliannau Gofal – Cyfeirnod CGOE18 – Cefnogi Oedolion Ifanc Bregus

Cyfeiriodd aelod at y sylwadau a nodir yn y ddogfen sef "Ni lwyddwyd i roddi blaenoriaeth o fewn rhaglen waith y gwasanaeth yn 2011/12 i'r prosiect hwn gan fod cynifer o ofynion eraill. Bydd rhaid adolygu a dylid ei gynnwys fel gwelliant yn 2012/13 ai peidio ac adnabod adnodd i gyfarch hynny". 'Roedd yr aelod o'r farn y dylid ei gynnwys fel gwelliant oherwydd pwysigrwydd y maes hwn.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr na fwriedir diystyru'r mater ond yn hytrach bydd angen blaenoriaethu'r gwaith.

Nododd Dafydd Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y prosiect hwn yn ystyried yn benodol pan ddeuai person ifanc sy'n 18 oed yn oedolyn, yna dylid ystyried anghenion y gwasanaeth.

Nododd y Prif Weithredwr ymhellach mai sylwadau ar gyfer 2011/12 a nodir yn y ddogfen ond addawodd y rhoddir sylw i'r mater ar gyfer y dyfodol.

(iii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cyflogi prentisiaid ifanc, hysbysodd Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol bod hwn yn gynllun ar y cyd gyda Chyngor Sir Ynys Môn ac sy'n cael ei ddatblygu a'i gydgordio gan Goleg Llandrillo. Nododd bod oddeutu 30 o brentisiaid wedi eu recriwtio ac mae eu lleoliadau naill ai mewn busnesau yng Ngwynedd neu Môn.

(iv) Plant a Phobl Ifanc – Cyfeirnod EA502

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed trawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16, hysbysodd Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y dangosydd yn nodi'r newidiadau sydd ar y gweill o ran addysg ac hyfforddiant ôl-16 yn benodol yn ardal Arfon. Nododd bod gwaith ar y gweill i hyrwyddo cydweithio rhwng darparwyr yn y maes addysg ac hyfforddiant ôl-16 yn Arfon. Cynigir y ddarpariaeth yn ardal Dwyfor ar gampws Coleg Meirion Dwyfor.

(v) Iaith – Cyfeirnod PS105 – Cynllun Siarter Iaith Ysgolion

Nododd aelod i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2012 argymell y dylid symud y cynllun uchod o liw gwyrdd i liw ambr a gofynnodd am eglurhad ynglyn â'r rhesymeg am hynny. Oherwydd bod rhai yn bryderus am berfformiad y Siarter Iaith, awgrymodd y dylai'r mater gael sylw'r Pwyllgor Iaith.

Mewn ymateb, hysbysodd Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yr argymhellodd y pwyllgor newid y lliw o wyrdd i ambr oherwydd nad oedd deilliant clir wedi ei nodi.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cymeradwyo'r ddogfen fel adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei welliannau a dangosyddion yn ystod 2011/12, a'i fabwysiadu.**
**b) Derbyn argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar y ddogfen fel a ganlyn –**

- **Gwelliannau Gofal – Cyfeirnod CGOEO1 – Newid paragraff olaf y sylwadau i ddarllen fel â ganlyn – *"Mae'n ymddangos bod gostyngiad wedi bod yn nifer yr oriau gofal cartref sy'n cael eu darparu i 9324, fodd bynnag, mae'r gwaith dadansoddi'n parhau er mwyn adnabod y duedd".***
- **Adfywio a'r Economi – Cyfeirnod SMG07 – Dileu'r gair *"adfocatiaeth"***
- **Plant a Phobl Ifanc – Graff rhif 3 ar dudalen 38 – Newid *"Nifer"* i *"%"***
- **Plant a Phobl Ifanc – Cyfeirnod Add.03 – Angen tynnu sylw'n benodol at y sector uwchradd yn y gwelliant a'r deilliant yma.**
- **Maes Iaith – Cyfeirnod Add.11 – Newid lliw gwelliannau Add.11, PS105, PS106, PS109 a PS110 i ambr er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o'r perfformiad.**

**c) Cyfeirio cyfeirnod PS105 – Cynllun Siarter Iaith Ysgolion er sylw pellach y Pwyllgor Iaith.**
**ch) Awdurdodi'r Pennaeth Strategol a Gwella i wneud unrhyw gywiriadau, ychwanegiadau neu newidiadau golygyddol angenrheidiol i sicrhau cywirdeb cyn cyhoeddi'r adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Croesawyd Ffrancon Williams, Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Rhys Jones, Cyfarwyddwr Cymunedau a Chwsmeriaid i'r cyfarfod.

a) Cyflwynodd Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Gwynedd yr adroddiad blynyddol a oedd yn amlinellu eu gweithgareddau am yr ail flwyddyn o 1 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012.

Tynnodd sylw'n benodol at y materion canlynol -
i) Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig.
ii) Gwaith buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru
iii) Trefniadau ymgynghori â thenantiaid
iv) Goblygiadau dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaethau Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dâl Tai)
v) Protocol Aelodau Etholedig
vi) Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai strategol pwysig
vii) Materion gweithredol eraill

b) Gwahoddwyd aelodau i gyflwyno sylwadau.

i) Datganodd aelod siom am ansawdd gofal cwsmer. Nododd iddo gysylltu â'r staff ar sawl achlysur parthed problemau tenantiaid ac i'w ymholiadau gael eu hanwybyddu'n llwyr. Nododd hefyd bod eu system atgyweirio yn ddiffygiol gan gyfeirio'n benodol at un achylsur lle y cymerwyd tri mis i atgyweirio giât.

Mewn ymateb, gofynnodd y Prif Weithredwr, os oes enghreifftiau unigol, yna dylid tynnu sylw'r swyddogion atynt. Nododd bod gofal cwsmer yn un o'r prif flaenoriaethau ac mae newidiadau o fewn eu trefniadau mewnol er mwyn gwella hynny. 'Roedd yn ymwybodol am y cwynion ynglyn â'r gwasanaeth cynnal a chadw ac 'roedd adolygiad ar y gweill i geisio datrys y problemau.

Nododd y Cyfarwyddwr Cymunedau a Chwsmeriaid bod yna welliannau yn deillio o arolwg boddhaol cwsmeriaid. Cytunwyd i gryfhau'r tîm gofal cwsmer gan gyflogi rhagor o staff a bod oriau agor y ganolfan wedi cynyddu o 8.00am i 6.00pm fel y gellir ymdrin â'r cwynion a.y. yn gynt ac yn gyson.

ii) Tynnodd aelod sylw at yr angen i gael rhandiroedd ar gyfer y tenantiaid.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr, fel rhan o'r broses drosglwyddo, fe gymerwyd rhai rhandiroedd trosodd ond bod y rhai statudol yn parhau ym mherchenogaeth y Cyngor. Awgrymodd bod y cais am randiroedd yn gyntaf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ac fe gydweithir â hwy lle'n briodol.

iii) Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl sefydlu swyddfeydd ardal er mwyn i'r tenantiaid gael gwell cyswllt â'r swyddogion.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr bod swyddfeydd ardal yn bodoli yn y dair ardal.

iv) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cyfranddalwyr, hysbysodd y Prif Weithredwr y rhoddir hysbyseb yn y newyddlen tenantiaid ac ar wefan CCG yn gwahodd tenantiaid i fod yn gyfranddalwyr.

v) Holodd aelod os oedd cymal yn y cytundeb adeg y trosglwyddiad i gyflogi pobl leol a oedd â'r gallu i siarad Cymraeg.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr ei fod yn anghyfreithlon i gynnwys cymalau o fewn unrhyw ddogfen tendro Ewropeaidd yn mynnu cyflogi pobl leol, ond drwy'r "Targeded Reqruitement and Training", sicrhawyd cymal o fewn y contractau lle mae disgwyliad i 15% o'r gweithlu fod dan hyfforddiant. Yn ogystal, mae llafur lleol yn cael ei fonitro a rhoddir pwysau ar gontractwyr i gyflogi'n lleol.

vi) Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod llawer o denantiaid yn methu fforddio tanwydd ac yn tynnu'r tannau yn eu tai. Gofynnodd sut y cefnogir y tenantiaid sydd yn wynebu tlodi tanwydd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr o dan y rhaglen gwella a buddsoddi nododd bod gwahanol ddewisiadau o wresogyddion ar gael. Nododd y gweithiwyd eisoes gyda nifer o denantiaid er mwyn penderfynu ar y dewis gorau. Cyfeiriodd at y strategaeth cynhwysiad ariannol sy'n ceisio rhoddi llawer o gymorth i denantiaid i wneud gwell defnydd o'r arian sydd ganddynt sy'n cynnwys trefniadau bancio a.y.

vii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod arall parthed tannau agored yn y tai, hysbysodd y Prif Weithredwr bod elfen o ddiogelwch yn bodoli gyda'r rhain, ac fel landlord mae angen gwneud profion ar y tannau agored. Rhoddir ystyriaeth i danwydd soled fel opsiwn a gynigir i denantiaid.

viii) Gofynnodd aelod os nad yw tenantiaid yn fodlon gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd fel landlord, a oes ganddynt hawl i fynd at gymdeithas dai arall.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr bod trefn gwyno ffurfiol i denantiaid yn bodoli gyda nifer o gamau ynghlwm â drefn gwyno mewnol ac mae'n bosibl i denantiaid gyfeirio eu cwynion i'r Ombwdsmon. Nododd y gallai unrhyw denant gyflwyno cais am drosglwyddiad i unrhyw fudiad. Nid oedd yn ymwybodol am unrhyw ddeddfwriaeth os yw tenant yn anfodlon gyda'r landlord.

ix) Gofynnodd aelod faint a gyflogir yn lleol ganddynt yn y dair ardal drwy Wynedd a hefyd faint o gwmniau lleol a gyflogir.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr nad oedd y ffigurau ganddo ond addawodd gyfleu'r wybodaeth i'r aelod.

x) Cyfeiriodd aelod at achos diweddar lle 'roedd syrfewr trydanol wedi ymweld ag eiddo arbennig ac 'roedd o'r farn nad oedd yr eiddo angen ei ailweirio ond 'roedd angen i'r tenant arwyddo ffurflen briodol yn gwrthod ailweirio'r eiddo.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Weithredwr bod hawl gan denantiaid i wrthod cario allan gwaith ar eu heiddo. Nododd os yw system drydanol y tai angen sylw, yna mae cyfrifoldeb arnynt fel landlord i sicrhau bod hynny'n digwydd a chydweithir gyda'r tenantiaid mewn achosion o'r fath.

**PENDERFYNWYD derbyn a diolch i'r swyddogion am yr adroddiad.**

**9. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 17, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 17(12), oddiwrth y Cynghorydd Michael Sol Owen, i drafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor -

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Bod Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r bwriad o dreialu arbrawf o GMT + 1 ar gyfer y gaeaf a GMT + 2 ar gyfer yr haf (sef double summertime) oherwydd y manteision cyffredinol ar gael i drigolion a busnesau yma yng Ngwynedd, sef arbedion ynni, allyriadau, llai o ddamweiniau ffordd a hwb i ddiwydiant twristiaeth".**

Nododd y cynigydd bod nifer o adroddiadau'n cefnogi'r bwriad hwn. Ymhlith y manteision cyffredinol i Brydain Fawr yw –
a) Lleihau allyriadau carbon o tua 447,000 o dunelli.
b) Arbed cynhyrchu tua 6 gigawat oriau o drydan y diwrnod.
c) Yr amcangyfrifir arbed tua 450 o ddamweniau angheuol ar y ffyrdd.
ch) Cynyddu'r diwydiant twristiaeth.

Deellir bod cynnig cynnar-yn-y-dydd (early day motion) ar gyfer arbrawf o dair blynedd ar y mater i'w drafod yn rhaglen Tŷ'r Cyffredin yn ystod 2012/13. Nododd i 39 o Aelodau Seneddol arwyddo'r cynnig gan gynnwys Elfyn Llwyd, Hywel Williams ac Albert Owen.

'Roedd amryw o'r aelodau'n gwrthwynebu'r cynnig gan nodi eu rhesymau am hynny.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cynnig.**

(B) Adrodd yn ôl ar Rybudd o Gynnig

(i) Adroddwyd y cyflwynwyd rhybudd o gynnig i'r Cyngor ar 16 Rhagfyr 2010 bod Cyngor Gwynedd yn symud ymlaen ar frys i sicrhau bod arwyddion yn cael eu gosod yn nhref Caernarfon a mannau eraill poblog, er atal cŵn rhag rhedeg yn rhydd, heb fod ar dennyn. Penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r mater i sylw'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd.

(ii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar drafodion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac yn ddiweddarach y Cabinet.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ac argymhellion y Pwyllgor Craffu Amgylchedd a'r Cabinet.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.30p.m.

______________________
**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD :** | **6, Rhagfyr, 2012.** |
| **TEITL :** | **Penodi Aelod Annibynnol i’r Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Dilys Phillips, Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDIAD:** | **Ystyried argymhelliad y Panel Ymgynghorol** |

## 1. CEFNDIR.

1.1 Mae 9 aelod ar y Pwyllgor Safonau sef :-

- 5 aelod annibynnol (h.y. aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â llywodraeth leol).
- 1 aelod pwyllgor cymunedol sy'n aelod o un o gynghorau cymuned Gwynedd (ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd).
- 3 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd.

1.2 Ar 19, Gorffennaf 2012 derbyniais ymddiswyddiad un o'r aelodau annibynnol, gan greu sedd wag ar y pwyllgor.

1.3 Yn unol â'r drefn a gytunwyd gan y Cyngor hysbysebwyd y sedd wag ar gyfer aelod annibynnol yn y wasg gyda dyddiad cau o 27, Medi. Derbyniwyd pedwar cais.

1.4 O dan y ddeddfwriaeth berthnasol mae'n rhaid i Banel Ymgynghorol ystyried y ceisiadau ac yna argymell wrth y Cyngor pa ymgeisydd i'w benodi. Aelodau'r Panel Ymgynghorol oedd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, aelod o Gyngor Cymuned a dau aelod lleyg heb gysylltiad hefo llywodraeth leol. Rôl y Panel yw ystyried pob cais a dderbynnir gan ddefnyddio meini prawf y Cyngor ar gyfer penodi aelodau annibynnol i'r Pwyllgor. Tra mai'r Cyngor sydd i wneud y penodiad, mae'n rhaid iddo roi sylw i argymhellion y panel.

1.5 Cyfarfu'r Panel Ymgynghorol ar y 22, Hydref a chyfweld 3 o'r ymgeiswyr. Nid oedd y pedwerydd ymgeisydd ar gael ar gyfer cyfweliad ond rhoddwyd ystyriaeth i'w gais ar bapur a daeth y Panel i'r casgliad nad oedd yn rhagori ar yr ymgeisydd a ddaeth i'r brig.

1.6 Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrylwyr o'r holl geisiadau, penderfynodd y Panel argymell Dr Einir Meredydd Young i'r Cyngor fel aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau. Mae Dr Young yn byw yn Nhalybont, Bangor ac yn gweithio yn y Brifysgol.

## 2. ARGYMHELLIAD.

2.1 Penodi Dr Einir Meredydd Young yn aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd i wasanaethu am gyfnod o 6 mlynedd.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **CYNGOR LLAWN** |
| DYDDIAD: | **6 RHAGFYR 2012** |
| TEITL: | **TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU** |
| PWRPAS: | **Cadarnhad ffurfiol am 2013/14 ac wedi hynny o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag.** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

1.1 Rhoddir disgresiwn i Gynghorau o dan Adran 12 o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel a ddiwygir gan Adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004) i ganiatáu disgownt ai peidio i ddau gategori o ail gartrefi (dosbarthiadau A a B, isod) ac i eiddo gwag tymor hir (dosbarth C). Gall y disgownt fod yn 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl.

1.2 Tra bod rheoliadau eisoes yn caniatáu i'r Cabinet gymryd penderfyniad ar sylfaen treth cyngor, **rhaid sicrhau penderfyniad parthed hawl disgownt o'r Cyngor llawn**. Am resymau technegol, gofynnir eto am gadarnhad blynyddol o'r penderfyniad i beidio caniatáu disgowntiau.

## 2. POLISI CYFREDOL A'R BWRIAD

2.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynu caniatáu DIM disgownt i ail gartrefi (dosbarthiadau A a B) ym mhob blwyddyn ers derbyn hawl disgresiwn o dan reoliadau 1998, ac argymhellir isod fod hyn i barhau yn 2013/14.

2.2 Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu PEIDIO a chaniatáu disgownt o 50% i ddosbarth C (eiddo gwag) ers 2009/10, ac argymhellir isod fod hyn i barhau yn 2013/14.

2.3 Er mwyn osgoi'r gofyn am benderfyniad blynyddol ar yr uchod, penderfynwyd yng nghyfarfod 21 Ionawr 2010 o'r Cyngor llawn i gadarnhau fod y polisi yma i barhau tu hwnt i 2010/11, ac ymhellach, hyd nes fydd eitem berthnasol yn cael ei daflennu ar raglen y Cyngor llawn. Fodd bynnag, ddaru ystyriaeth tribiwnlys prisio o achos parthed eiddo mewn sir arall godi amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd penderfyniad a pholisi parhaol ar hyn, a'r farn gyfreithiol yw y byddai'n osgoi elfen o risg i'r Cyngor pe bawn yn sicrhau penderfyniad blynyddol ar gyfer y mater.

2.4 Mae strategaeth ariannol 2013/14, a setliad grant y Cyngor gan Llywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2013/14.

## 3. "Y RHEOLIADAU" - RHEOLIADAU TRETH CYNGOR (DOSBARTH O EIDDO PENODEDIG) (CYMRU) 1998 / RHEOLIADAU'R DRETH GYNGOR (DOSBARTHAU RHAGNODEDIG AR ANHEDDAU) (CYMRU) (DIWYGIO) 2004

3.1 Yn y Rheoliadau uchod mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C nawr yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi'u dodrefnu lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf mewn cyfnod o 12 mis.
- **Dosbarth B** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi'u dodrefnu.
- **Dosbarth C** - Yn ddiddeiliad a heb eu dodrefnu ac wedi bod felly am gyfnod o dros 6 mis.

3.2 Mae'r Rheoliadau yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth lawn, neu i ganiatáu disgownt o 25% neu 50% i ddosbarthiadau A a B.

3.3 Yn yr un modd, mae'r Rheoliadau yn caniatáu i'r Cyngor barhau i ganiatáu disgownt 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl ar ddosbarth C.

## 4. AIL GARTREFI

4.1 Mae nifer o aelodau etholedig wedi awgrymu dylid codi mwy na 100% o'r Treth Cyngor sy'n daladwy'n arferol ar ail gartrefi, drwy ddefnyddio 'premiwm' yn hytrach na disgownt.

4.2 Er mwyn gweithredu 'premiwm', byddai angen newid yn y Rheoliadau cenedlaethol, a hefyd newid yn y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n greiddiol i'r Rheoliadau rheiny (gan Lywodraethau San Steffan a Llywodraeth Cymru).

4.3 Ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill, mae Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet a sawl swyddog yn parhau i ymgyrchu i annog datblygiad o'r fath, gydag awdurdodau lleol yn cadw'r incwm treth cyngor ychwanegol gellid cynhyrchu.

4.4 Deallir bellach i Lywodraeth San Steffan ganiatáu'r hawl i Lywodraeth Cymru i ddeddfu ar godi mwy na 100%, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y mater hyd yma. Ymhellach, er mwyn gweithredu'n gyflawn, bydd angen sicrhau grym i Lywodraeth Cymru ddeddfu hefyd ynghylch rheoli / rhwystro trosglwyddiad tai haf i dai gwyliau masnachol a'r dreth annomestig.

## 5. POLISI TRETH CYNGOR PARTHED EIDDO GWAG

5.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Tai Gwag Cyngor Gwynedd yn Chwefror 2009. Mae'r Cyngor hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd rhoddi sylw i dai gwag o fewn ei Gynllun Strategol (dwyn eiddo gwag yn ôl i ddefnydd). Datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag yw: *"Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu'r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu'r posibilrwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau'r pwysau ar y Rhestr Aros Tai".*

5.2 Ers Ebrill 2009, mae 100% o'r dreth cyngor wedi cael ei godi ar anheddau gwag hir dymor, yn dilyn naill ai cyfnod eithrio o 6 mis, neu gyfnod eithrio estynedig o 12 mis os oedd yr eiddo'n cael ei adnewyddu'n sylweddol. Byddai darparu unrhyw ddisgownt yn rhoi cymhelliad anffodus i berchnogion gadw anheddau yn wag. Mae'n rhan o'r Strategaeth Tai Gwag fod y Cyngor am ymarfer ei disgresiwn i godi 100% o dreth cyngor ar anheddau sy'n wag yn y tymor hir, fel cymhelliad i ddod â'r anheddau hyn yn ôl i ddefnydd. Argymhellir i'r Cyngor llawn barhau â'r penderfyniad o beidio caniatáu'r disgownt ar eiddo gwag yn 2013/14.

5.3 Yn gysylltiedig â threthi eiddo gwag, bu ymgynghoriad diweddar ar godi mwy na 100% o Dreth Cyngor ar eiddo gwag hir-dymor. Rhagwelir y caniateir hawl dewisol i awdurdodau lleol godi mwy na 100% yn y dyfodol, ond nid yw'n debygol ar gyfer 2013/14.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Doeth yw ceisio penderfyniad blynyddol gan y Cyngor llawn ar y materion hyn.

6.2 Felly, **gofynnir i'r Cyngor benderfynu** yn ffurfiol eto ar gyfer 2013/14 **fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt** o dan Adran 12 o'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 **i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi** (dosbarthiadau A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig) (Cymru) 1998.

6.3 Ymhellach, **gofynnir i'r Cyngor benderfynu yn ffurfiol** eto am 2013/14 **i ganiatáu DIM disgownt yng nghyswllt tai gwag** (dosbarth C).

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n cefnogi'r argymhelliad sydd yn gyson â pholisi'r Cyngor ar y mater ers peth amser.

**Y Swyddog Monitro:**
Nid oes gennyf sylw o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Y CYNGOR |
| DYDDIAD | 6ED O RAGFYR, 2012 |
| PWNC | CYFLOGAU AELODAU |
| AWDUR | Geraint George,<br>Pennaeth Strategol a Gwella |

1. Penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 17eg o Fai, 2012 i ddyrannu 16 o'r 18 uwch - gyflog sy'n bosib eu dyrannu i aelodau. Dyranwyd yr uwch-gyflogau fel a ganlyn – Arweinydd y Cyngor a hyd at 9 aelod o'r Cabinet (gan gynnwys unrhyw Ddirprwy Arweinydd), Cadeiryddion y 3 Pwyllgor Craffu, y Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Trwyddedu.

2. Penderfynwyd peidio dyrannu'r 2 uwch gyflog oedd yn weddill, gan adolygu'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn pan fyddai'r newidiadau i'r Cyfansoddiad, a'r llwyth gwaith a ddaw yn eu sgil yn dod yn gliriach.

3. I atgoffa'r aelodau, mae pum dosbarth o aelodau sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog, sef: Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Aelod o'r Cabinet, Cadeirydd Pwyllgor ac Arweinydd Grwp Gwleidyddol. Noder y dyrennir yr uwch gyflogau i swyddi penodol. Dim ond hawl i un uwch gyflog sydd gan unigolyn.

4. Mae adroddiad blynyddol (drafft) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Rhagfyr 2012 yn nodi fod *"rhaid i gyngor roi Uwch Gyflog i Arweinydd y Grŵp gwrthblaid mwyaf… cyn belled â bod y Grŵp yn bodloni gofyniad y Panel o fod â dim llai na deg y cant (10%) o holl aelodau'r cyngor"* (para 3.10). Disgwylir yr adroddiad terfynol ddiwedd Rhagfyr 2012.

5. Mae 16 Aelod gan y Grwp gwrthblaid mwyaf yng Ngwynedd, sef y Grwp Annibynnol, sy'n uwch na 10% o holl aelodau'r Cyngor. Bydd yn ofynol neilltuo un o'r Uwch-gyflogau sy'n weddill i Arweinydd y Grwp gwrthblaid mwyaf.

6. O dderbyn hyn, mae un uwch gyflog yn weddill. Gan gofio'r pum dosbarth o aelodau sy'n gymwys (nodir ym mhara 3 uchod), ystyriwyd Cadeiryddiaethau y pwyllgorau oedd yn weddill. Aseswyd nifer o wahanol ffactorau, gan gynnwys gofynion y rôl, pwysigrwydd y rôl i gyd-aelodau a rôl arweiniol a datblygol y pwyllgor.

7. Y pwyllgorau eraill na thelir uwch gyflog i'r Cadeirydd ar hyn o bryd yw
   - Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
   - Pwyllgor Iaith
   - Pwyllgor Apelau Cyflogaeth
   - Pwyllgor Pensiynau
   - Pwyllgorau Ardal

8. Wrth ddod i benderfyniad, rhaid i'r Cyngor bwyso a mesur yr ystyriaethau a ganlyn:

- Pwysau gwaith
- Pwysigrwydd y rôl i gyd-aelodau
- Rôl arweiniol a datblygol y pwyllgor

9. O ran pwysau gwaith, mae'n anodd cymharu wrth ystyried nifer y cyfarfodydd yn unig gan bod llawer o'r pwysau yn codi yn sgil y galw ar gadeirydd rhwng cyfarfodydd. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mae'r ddau sydd â'r galw mwyaf arnynt yn nhermau amser yw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

10. Wrth bwyso a mesur yr ystyriaethau eraill, mae'n ymddangos bod rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn fwy arwyddocaol o ran ei bwysigrwydd i gyd-aelodau a'r rôl arweiniol/ datblygol, yn enwedig o gofio newydd-deb y drefn wleidyddol newydd a phwysigrwydd rôl y Cadeirydd yn hynny o beth.

11. **Argymhelliad:**

Ar sail y dystiolaeth uchod, argymhellir bod y Cyngor yn dyranu'r ddau uwch gyflog sydd yn weddill i Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf ac i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am weddill blwyddyn bresennol y Cyngor, gan adolygu'r sefyllfa ymhellach o fis Mai ymlaen. Yn amlwg, dylai'r uwch gyflog fod yn daladwy o'r dyddiad pan yr ysgwyddwyd y cyfrifoldebau dan sylw.